

## **Arolygiad o Bractis Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)**

Practis Meddygol Rosedale /  
Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe  
Bro Morgannwg

Dyddiad yr arolygiad: 16 Mai 2017

Dyddiad Cyhoeddi: 17 Awst 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ**

Neu drwy:

**Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [hiw@wales.gsi.gov.uk](mailto:hiw@wales.gsi.gov.uk)  
Ffacs: 0300 062 8387  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)**

ISBN digidol 978-1-4734-9936-2

© Hawlfraint y Goron 2017

## Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom .....	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad .....	6
3.	Yr hyn a ganfuom.....	7
	Ansawdd profiad y claf .....	8
	Cyflwyno gofal diogel ac effeithiol .....	14
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	19
4.	Beth nesaf? .....	22
5.	Sut rydym yn arolygu practisau meddygon teulu.....	23
6.	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad..	24
	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith.....	25
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	26

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod pobl yng Nghymru'n derbyn gofal da.

## Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: mae profiadau cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd yn ganolog i'r hyn rydym yn ei wneud
- Gonestrwydd: rydym yn agored ac yn onest yn y ffordd rydym yn gweithredu
- Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud dyfarniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn yr ydym yn ei weld
- Cydweithredu: rydym yn meithrin partneriaethau effeithiol yn fewnol ac allanol
- Proffesiynol: rydym yn gweithredu'n effeithlon, yn effeithiol ac yn gyfatebol.

## Ein blaenoriaethau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

Rhoi sicrwydd:

Rhoi barn annibynnol ar ansawdd y gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliannau trwy adrodd a rhannu arferion da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn a welwn i ddylanwadu ar bolisiâu, safonau ac arferion.

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Meddygol Rosedale yng Nghanolfan Adnoddau Port Talbot, Moor Road, Baglan, SA12 7BJ, o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, ar 16 Mai 2017.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn rheolwr arolygu AGIC (arweinydd yr arolygiad), adolygwyr cymheiriaid meddygon teulu a rheolwyr practis, ac adolygydd lleyg

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd y gwaswanaeth yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Ceir manylion pellach am y modd yr ydym yn cynnal arolygiadau o bractisau meddyg teulu yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, canfuom dystiolaeth fod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol. Er hynny, canfuom beth dystiolaeth nad oedd y practis yn gwbl gydymffurfio â'r holl Safonau Iechyd a Gofal ym mhob maes.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Yn gyffredinol, dywedodd cleifion wrthym eu bod nhw yn hapus gyda'r gwasanaeth a dderbyniwyd ganddynt
- Roedd trefniadau ar wait hi hyrwyddo gofal diogel ac effeithiol
- Roedd meddygyniaethau'n cael eu rheoli'n ddiogel
- Disgrifiwyd cysylltiadau cadarnhaol gyda'r grŵp clwstwr o feddygon teulu lleol
- Roedd strwythr rheoli gyda llinellau adrodd clir ar waith.

Rydym yn argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Adolygu a diweddarau'r wybodaeth sydd ar gael ar-lein fel ei bod yn gyson ac yn gyfoes
- Arddangos gwybodaeth glir ar argaeledd gwarchodwyr
- Rhoi system ar waith i wirio cyfarpar a meddyginiaeth frys
- Cofnodi mwy o fanylion o fewn cofnodion cleifion, gan ystyried safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion
- Adolygu'r system ar gyfer cofnodi hyfforddiant staff, fel y gellir cael mynediad ati a'i hadolygu'n haws.

## 3. Yr hyn a ganfuom

### Cefndir y gwasanaeth

Ar hyn o bryd, mae Practis Meddygol Rosedale yn darparu gwasanaethau ar gyfer tua 5,000 o gleifion yn ardal Port Talbot. Mae'r practis yn ffurfio rhan o'r gwasanaethau meddygon teulu a ddarperir o fewn yr ardal sy'n gwasanaethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.

Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys pum meddyg teulu, nyrs bractis, cynorthwydd gofal iechyd, rheolwr practis, arweinydd tîm a staff derbynfa/gweinyddol.

Mae'r practis yn darparu amrywiaeth o wasanaethau, gan gynnwys:

- Gwiriadau iechyd ar gyfer cleifion newydd
- Monitro
- Gwiriadau asthma
- Gwiriadau cyn-geni
- Pwysedd gwaed a gwiriadau
- Clinig babanod
- Gwiriadau diabetig
- Chwistrellu clustiau
- Clinigau clefydau cronig
- Sytolog serfigol
- Pigiadau cymalau
- Cyngor atal cenhedlu
- Profion ECG (prawf sy'n cofnodi rhythm a gweithgarwch trydanol y galon)

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (pan fo'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Yn gyffredinol, dywedodd cleifion wrthym eu bod yn hapus gyda'r gwasanaeth a dderbyniwyd gan y practis.

Gwelsom staff yn trin cleifion gyda pharch a charedigrwydd ac roedd trefniadau ar waith i hyrwyddo eu preifatrwydd a'u hurddas. Roedd gwybodaeth ar gael i helpu cleifion i edrych ar ôl eu hiechyd a'u lles eu hunain. Gallai'r wybodaeth i gleifion ar-lein gael ei gwella, ynghyd â gwybodaeth i ofalwyr.

Roedd y practis yn gwneud ymdrech i ddarparu gofal amserol i gleifion.

Gallai cleifion ddarparu adborth ar eu profiadau ac roedd trefniadau ar waith i gleifion godi unrhyw bryderon neu gwynion ynghylch eu gofal.

Yn ystod ein harolygiad, gwnaethom wahodd cleifion i gwblhau holiadur AGIC er mwyn darganfod eu barn ar y gwasanaethau a ddarparwyd. Cwblhawyd cyfanswm o saith holiadur. Roedd y mwyafrif o gleifion a ddychwelodd holiadur wedi bod yn glaf yn y practis am fwy na dwy flynedd.

### **Cadw'n iach**

Roedd gwybodaeth ar gael i gleifion i'w cynorthwyo i gymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd a'u lles eu hunain.

Roedd deunydd hyrwyddo iechyd wedi ei arddangos yn yr ardal aros ynghyd â gwybodaeth ar grwpiau cymorth a gwasanaethau lleol ble gallai cleifion gael cymorth a chynghor ar faterion iechyd perthnasol. Dywedodd staff gofal iechyd wrthym eu bod yn trafod cyflyrau iechyd gyda chleifion ac yn darparu taflenni gwybodaeth yn ystod ymgynghoriadau.

Er bod gwybodaeth hyrwyddo iechyd ar gael, dylai'r practis ystyried arddangos mwy o wybodaeth yn benodol ar gyfer gofalwyr. Dylai hon anelu at ganfod



grwpiau ac asiantaethau cymorth lleol sydd â'r gallu i gynnig cyngor penodol i ofalwyr ar eu cyfrifoldebau gofal o ddydd i ddydd.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis arddangos mwy o wybodaeth am y cymorth a'r gefnogaeth sydd ar gael yn benodol ar gyfer gofalwyr.

## Gofal ag urddas

Cafodd pobl a oedd yn ymweld â'r practis eu trin gyda pharch, cwrteisi a moesgarwch. Roedd trefniadau yn eu lle i hyrwyddo urddas cleifion ac i ddiogelu eu preifatrwydd.

Gwelsom staff yn cyfarch cleifion mewn modd croesawgar ac yn trin pawb â pharch. Roedd pob claf a ddychwelodd holiadur cyflawn, a'r cleifion hynny y gwnaethom siarad â hwy, yn teimlo eu bod wedi eu trin â pharch.

Roedd seddau yn yr ardal aros wedi eu lleoli i ffwrdd o ddesg y dderbynfa. Roedd y trefniad hwn, ynghyd â level y sŵn cefndir o fewn yr adeilad, yn darparu ychydig o breifatrwydd ar gyfer cleifion wrth siarad â staff y dderbynfa. Lleolwyd yr ystafelloedd ymgynghori a thriniaeth i ffwrdd o'r brif ardal aros. Gwelsom fod y drysau i'r ystafelloedd hyn ar gau trwy'r amser pan oedd staff y practis yn gweld cleifion. Roedd hyn yn golygu bod staff yn cymryd camau addas i gynnal preifatrwydd ac urddas cleifion.

Roedd y practis wedi ysgrifennu polisi ar y defnydd o warchodwyr a chadarnhawyd gan uwch-staff bod staff wedi mynychu'r hyfforddiant perthnasol. Y bwriad trwy ddefnyddio gwarchodwyr yw diogelu cleifion a staff gofal iechyd pan fydd archwiliadau personol o gleifion yn cael eu cynnal. Er hynny, doedd dim gwybodaeth wedi ei harddangos yn cynghori cleifion y gallent ofyn i warchodwr fod yn bresennol. Dylai'r practis wneud trefniadau i wneud y cleifion yn ymwybodol bod warchodwr ar gael ar gais.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis arddangos gwybodaeth glir ar gyfer cleifion i'w hysbysu eu bod yn gallu cael gwarchodwr yn bresennol.

## Gwybodaeth Cleifion

Roedd gwybodaeth ar gyfer cleifion ar gael. Roedd angen gwelliant ynghylch cofnodi caniatâd claf am ofal a thriniaeth a'r cyngor a roddwyd yn ystod ymgynghoriadau.

Roedd y practis wedi cynhyrchu taflen wybodaeth i gleifion. Roedd hon yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol, gan gynnwys manylion cyswllt, amseroedd agor, y gwasanaethau a gynigiwyd gan y practis a sut i wneud apwyntiad. Gwnaethpwyd gwybodaeth ysgrifenedig ar gael i gleifion o fewn yr ardal aros hefyd, trwy ffurflenni, posterï ac ar fonitor teledu.

Er bod gwybodaeth ar gael ar-lein, roedd cleifion yn gallu cael at fwy nag un wefan ar gyfer y practis, gyda gwybodaeth wahanol ar gael. Roedd hyn yn gallu achosi dryswch i gleifion a oedd yn edrych am wybodaeth am y practis. Eglurwyd gan staff uwch bod gwefan newydd yn cael ei llunio. Yn y cyfamser, dylai'r practis wneud trefniadau i sicrhau bod y wybodaeth sydd ar gael ar-lein yn gyson ac yn gyfoes.

Roedd monitor teledu yn cael ei ddefnyddio yn yr ardal aros er mwyn hysbysu cleifion pan oedd y meddyg, nyrs neu weithiwr proffesiynol gofal iechyd arall yn barod i'w gweld. Roedd hyn yn arddangos enw'r gweithiwr proffesiynol gofal iechyd, enw'r claf a'r ystafell roedd angen iddo fynd iddi. Cadarnhawyd staff y dderbynfa y byddent yn hysbysu cleifion o unrhyw oedi o ran cael eu gweld ar ddiwrnod eu hapwyntiad.

Er y disgrifiwyd trefniadau ar gyfer sicrhau caniatâd cleifion, canfuom fod angen gwelliant ynghylch cofnodi hwn yng nghofnodion y claf. Roedd hyn i arddangos bod caniatâd dilys wedi ei sicrhau. Byddai rhai o'r nodiadau o fewn cofnodion cleifion hefyd yn elwa o gynnwys mwy o fanylion am y cyngor/gwybodaeth ysgrifenedig wedi ei rhoi i gleifion yn ystod ymgynghoriadau ynglŷn â'u cyflyrau gofal iechyd (gweler adran 'Gofal Diogel ac Effeithiol').

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis wneud trefniadau i sicrhau bod y wybodaeth sydd ar gael ar-lein yn gyson ac yn gyfoes

#### Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd y practis yn rhoi ystyriaeth i anghenion cyfathrebu cleifion.

Gwnaeth y staff gadarnhau y gallent ddefnyddio gwasanaeth cyfieithu pe bai angen a byddai amser apwyntiad hirach yn cael ei gynnig i gymryd hyn i ystyriaeth. Roedd sylwadau wrth gleifion yn cadarnhau eu bod yn gallu siarad â staff y practis yn eu hiaith ddewisol.

Gwelsom fod arwyddion dwyieithog (Cymraeg a Saesneg) wedi eu harddangos i helpu i gyfeirio cleifion Cymraeg eu hiaith i'r practis ac o'i gwmpas. Roedd rhai taflenni gwybodaeth i gleifion ar gael yn rheolaidd yn Gymraeg a Saesneg. Roedd un aelod o staff y practis yn gallu siarad Cymraeg. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn gallu cyfathrebu yn Gymraeg pe dymument. Dywedodd staff wrthym nad oedd llawer o'u cleifion yn dymuno cyfathrebu yn Gymraeg ac adlewyrchwyd hyn yn yr holiaduron a ddychwelwyd gan gleifion. Am fod y practis yn gweithredu yng Nghymru, dylai'r practis ystyried darparu mwy o wybodaeth ysgrifenedig i gleifion yn Gymraeg a Saesneg.

Roedd dolen glyw ar gael yn y dderbynfa i helpu'r cleifion yna sy'n defnyddio teclynnau clywed i glywed y staff yn fwy eglur. Gwnaeth staff y dderbynfa gadarnhau y byddai cleifion sy'n ddall neu sydd â nam ar eu golwg yn cael eu helpu i ddod o hyd i gadair a byddai staff yn eu helpu i'r ystafell ymgynghori neu driniaeth pan fyddai'n cael eu galw am eu hapwyntiad.

Roedd gan y practis systemau ar waith ar gyfer rheoli cyfathrebiadau allanol a mewnol. Roedd y rhain yn cynnwys trefniadau ar gyfer cofnodi gwybodaeth glinigol a dderbyniwyd yn y practis ar nodiadau cleifion cyn ei rhannu â meddyg teulu. Gwnaethom adolygu sampl o bum crynodeb rhyddhau a dderbyniwyd yn y practis oddi wrth ysbytai lleol. Roedd y rhain yn cynnwys gwybodaeth foddhaol ac roeddent wedi cael eu derbyn mewn modd amserol.

## **Gofal amserol**

Roedd y practis yn gwneud ymdrech i ddarparu gofal amserol i'r cleifion.

Roedd y practis yn gweithredu system frysbenneu dros y ffôn ar gyfer apwyntiadau. Roedd hyn yn golygu y byddai cleifion yn cysylltu â'r practis gyda manylion eu problem iechyd a byddent yn derbyn galwad ffôn yn ôl wedi asesiad brysbenneu gan feddyg. Gwelsom fod staff wedi eu cyfarwyddo i gofnodi gwybodaeth fanwl er mwyn cynorthwyo'r broses frysbenneu. Roedd cardiau annog ar gael yn rhwydd i staff, i'w hatgoffa o'r wybodaeth yr oedd angen dod o hyd iddi. Byddai cleifion wedyn yn cael cynnig cyngor dros y ffôn neu apwyntiad wyneb yn wyneb gyda meddyg neu aelod arall o dîm amlddisgyblaethol y practis yn ôl yr angen. Roedd yr uwch-staff wedi cynnal archwiliad o'r system frysbenneu i fonitro ei heffeithiolrwydd. Gwnaethom nodi hyn fel arfer nodedig.

Gwnaeth cleifion a ddychwelodd holiaduron wedi'u cwblhau gadarnhau y gofynnwyd cwestiynau iddynt am eu problem feddygol ac roedd y mwyafrif yn gwybod pam yr oedd y fath gwestiynau yn cael eu gofyn.

Roedd y mwyafrif o gleifion a ddychwelodd holiadur wedi'i gwblhau yn teimlo ei bod yn 'hawdd iawn' neu yn 'eithaf hawdd' gael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt, tra oedd rhai yn teimlo doedd hi 'ddim yn hawdd iawn' neu 'ddim yn hawdd o gwbl'. Roedd yr holl gleifion a ddychwelodd holiadur yn fodlon gydag amseroedd agor y practis.

Roedd ein harsylwadau yn ystod yr arolygiad yn dynodi bod cleifion yn cael eu gweld yn fuan ar ôl cyrraedd y practis.

Roedd nifer o glinigau ar gael i gleifion gyda chyflyrau iechyd hirdymor. Roedd y rhain yn cael eu trefnu a'u rhedeg gan nyrsys a oedd yn gallu monitro a chynnig cyngor ar reoli cyflyrau o'r fath i gleifion. Roedd fferylllydd clinigol ar gael i gynnig cyngor ar afiechydon bach ac ymholiadau yn gysylltiedig â meddyginiaeth. Cynigiwyd clinigau eraill hefyd ac roedd y rhain yn cael eu rhedeg gan fydwragedd ac ymwelwyr iechyd sydd ynghlwm wrth y practis. Roedd y trefniadau hyn yn golygu, lle bo'n addas, nad oedd cleifion yn gorfod aros i gael eu gweld gan feddyg.

Canfuom fod atgyfeiriadau i weithwyr proffesiynol gofal iechyd eraill mewn ysbytai ac yn y gymuned wedi eu rheoli'n briodol ac mewn modd amserol. Roedd system yn ei lle i wirio bod atgyfeiriadau a wnaed gan feddygon wedi eu derbyn ac wedi eu gweithredu arnynt. Gwnaeth yr uwch-staff esbonio fod y practis yn dyfeisio system fonitro a chofnodi ffurfiol ar gyfer hyn, i gynnwys atgyfeiriadau wedi eu gwneud gan feddygon teulu locwm.

Roedd y practis yn ffurfio rhan o wasanaethau gofal iechyd yn y gymuned a ddarparwyd mewn cyfleuster wedi ei adeiladu at y diben. Disgrifiwyd perthnasau gweithio agos gyda gwasanaethau eraill wedi eu lleoli o fewn yr un cyfleuster – er enghraifft, ffisiotherapi a phodiatreg.

Gofal Unigol

### Cynllunio gofal i hyrwyddo annibyniaeth

Roedd mynediad gwastad i'r prif adeilad ac roedd lifft i deithwyr yn gwasanaethu pob llawr. Roedd hyn yn golygu bod pobl ag anawsterau symudedd (a'r rhai hynny sy'n defnyddio cadeiriau olwyn) yn gallu cael mynediad i'r adeilad a'r practis yn ddiogel.

Gwnaeth yr uwch-staff ddisgrifio bod gwiriadau iechyd rheolaidd yn cael eu cynnal ar gyfer y cleifion a oedd eu hangen - er enghraifft, cleifion gydag anabledau dysgu. Dywedwyd wrthym fod y rhain yn cael eu defnyddio i adolygu pa mor effeithiol roedd y practis o ran canfod a chwrdd ag anghenion iechyd cleifion. Defnyddiwyd canlyniadau'r adolygiadau hyn i ddatblygu cynlluniau triniaeth unigol i gleifion.

Gwnaeth uwch-staff esbonio bod modd amlygu cleifion ag anghenion ychwanegol o fewn cofnodion cleifion. Byddai'r wybodaeth hon wedyn yn rhybuddio staff y practis fel y gallai trefniadau priodol gael eu gwneud fel bo'n addas – er enghraifft, wrth drefnu apwyntiadau.

### Hawliau pobl

Mae'r canfyddiadau a ddisgrifiwyd gennym trwy gydol yr adran hon, 'Ansawdd Profiad y Claf', yn dangos bod y practis yn ymwybodol o'i gyfrifoldebau ynghylch hawliau pobl. Er enghraifft, gwelsom fod cleifion yn cael eu trin gyda pharch a bod eu preifatrwydd yn cael ei barchu. Gwelsom fod amgylchedd y

practis yn hygyrch a bod ymdrech wedi'i gwneud i ddarparu gwasanaethau i gleifion a oedd yn cymryd i ystyriaeth eu hanghenion unigol.

### Gwranddo ar adborth a dysgu

Gwelsom fod blwch awgrymiadau ar gael wrth ddesg y dderbynfa. Roedd hwn yn rhoi cyfle i gleifion ddarparu adborth am eu profiadau o ddefnyddio'r practis. Yn ogystal â hyn, efallai y bydd y practis am ystyried ffyrdd eraill o rymuso cleifion i ddarparu adborth yn rheolaidd. Bwriad hyn fydd asesu'r gwasanaethau a ddarperir a gwneud gwelliannau fel y bo'n briodol.

Gwnaeth yr uwch-staff esbonio fod ymgais flaenorol i sefydlu Grŵp Cyfranogiad Cleifion wedi bod yn aflwyddiannus. Dylai'r practis edrych eto ar geisio sefydlu grŵp arall fel hwn am y byddai hyn yn cynnig fforwm i gleifion ddarparu adborth.

Roedd gan y practis weithdrefn ar waith er mwyn i gleifion a'u gofalwyr godi pryderon neu gŵynion am y gwasanaethau maent yn eu derbyn. Roedd gwybodaeth am hyn wedi ei harddangos yn yr ardal aros. Roedd gweithdrefn y practis yn gytûn â'r trefniadau cyfredol am ddelio â phryderon (cwynion) am ofal a thriniaeth y GIG yng Nghymru, sydd hefyd yn cael eu hadnabod fel 'Gweithio i Wella'.<sup>1</sup> Er bod dros hanner y cleifion a wnaeth gwblhau holiadur yn ymwybodol o sut i godi pryder neu gŵyn, nid oedd bron hanner y cleifion a wnaeth ymateb yn gwybod. Efallai yr hoffai'r practis ystyried sut y gall ymwybyddiaeth o'r weithdrefn gael ei chynyddu.

Gwelsom fod cofnodion wedi cael eu cadw o'r cwynion a dderbyniwyd gan y practis. Roedd y cofnodion yn dangos bod y practis wedi ymdrin â'r cwynion mewn modd amserol.

---

<sup>1</sup> Gweithio i Wella yw'r trefniadau ar gyfer ymdrin â phryderon (cwynion) ynglŷn â gofal y GIG yng Nghymru.

## Cyflwyno gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i bad raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Yn gyffredinol, canfuom fod gan y practis drefniadau i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion.

Canfuom fod meddyginiaethau'n cael eu rheoli'n ddiogel ac roedd trefniadau ar waith i leihau achosion o groes-heintio. Canfuom fod angen gwelliant o ran cynnal gwiriadau o gyfarpar brys.

Disgrifiwyd ac arddangoswyd gwaith amlddisgyblaethol effeithiol mewn perthynas â diogelu. Nid oedd yn glir a oedd y staff i gyd wedi mynychu hyfforddiant diogelu.

Yn gyffredinol, gwelsom safon dda o ran cadw cofnodion. Canfuom y gallai rhai nodiadau fod yn fwy manwl.

### **Gofal Diogel**

#### **Rheoli Risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch**

Canfuom fod trefniadau ar waith i amddiffyn diogelwch cleifion a staff sy'n gweithio yn y practis.

Gwelsom fod yr holl ardaloedd a ddefnyddiwyd gan gleifion a staff i'w gweld yn lân ac yn daclus a heb annibendod. Mae hyn yn helpu i leihau'r perygl o faglu a syrthio. Roedd adeilad y practis yn cael ei gynnal i safon foddhaol yn ôl pob golwg, yn fewnol ac yn allanol. Roedd mesurau diogelwch ar waith i atal mynediad i'r adeilad heb awdurdod ac oddi fewn iddo.

Lleolwyd y practis mewn adeilad a rennir. Gwnaeth uwch-staff gadarnhau bod rheolwr adeilad ar y safle ac mai ef oedd yn gyfrifol am faterion iechyd a diogelwch a chynnal a chadw'r adeilad.

Roedd polisïau ysgrifenedig yn berthnasol i ddiogelwch staff a chleifion ar gael.

Roedd gan y practis feddyginiaeth a chyfarpar i ymateb i argyfwng claf (llewyg) o fewn y practis. Wrth wirio'r cyfarpar, gwnaeth y tîm arolygu canfod fod rhai tiwbiau llwybr anadlu i gleifion wedi mynd heibio i'w dyddiad terfyn ac nid oedd rhai ohonynt mewn deunydd pacio wedi'i selio. Nid oeddem yn gallu bod yn sicr, felly, bod y rhain yn addas i'w defnyddio. Gwnaethom hysbysu uwch-staff

o'n canfyddiadau ac aethant ati ar unwaith i wirio bod y cyfarpar a'r feddyginiaeth a oedd yn weddill o fewn eu dyddiad 'defnyddio erbyn'. Er inni weld fod cofnodion wedi eu cynnal i ddangos bod y silindr ocsigen wedi ei wirio'n rheolaidd, nid oedd cofnodion tebyg ar gyfer cyfarpar a meddyginiaeth frys arall.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis wneud trefniadau i sicrhau bod meddyginiaeth a chyfarpar addas ar gael i'w defnyddio pe byddai argyfwng claf (llewyg).

Rhaid rhoi system ar waith er mwyn i'r rhain gael eu gwirio'n rheolaidd gyda'r bwriad o wneud yn sicr eu bod yn ddiogel i'w defnyddio.

### Atal a rheoli heintiau

Roedd mesurau ar waith i amddiffyn pobl rhag heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd y gellir eu hatal.

Roedd yr ardaloedd triniaeth glinigol a welsom yn ymddangos yn lân. Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo wedi eu darparu yn yr ardaloedd clinigol a'r cyfleusterau toiled. Gwelsom hefyd fod gwastraff wedi ei wahanu i fagiau/cynhwysyddion o wahanol liw i sicrhau ei fod yn cael ei storio a'i waredu'n gywir. Roedd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo bod y practis yn lân iawn yn eu barn hwy.

Gwelsom fod cyfarpar diogelu personol megis menig a ffedogau untro ar gael i staff clinigol er mwyn lleihau achosion o groes-heintio. Gwnaeth y staff nyrsio gadarnhau fod cyfarpar diogelu personol ar gael yn rhwydd trwy'r amser. Gwnaeth staff nyrsio gadarnhau hefyd bod offerynnau a ddefnyddiwyd yn ystod gweithdrefnau wedi eu prynu mewn paciau un defnydd, di-haint. Gwnaeth hyn osgoi'r angen am ddefnyddio offer sterileiddio/dadheintio ac roedd yn helpu i leihau achosion o groes-heintio. Gwelsom fod polisïau ar gael mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau. Roedd y staff nyrsio yn gwybod sut i gael mynediad at y rhain.

Er i'r uwch-staff gadarnhau bod yr holl staff clinigol wedi cael eu himiwneiddio rhag Hepatitis B, nid oedd cofnod canolog ar gael yn rhwydd ar adeg ein harolygiad i arddangos hyn.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis wneud trefniadau i gynnal cofnod canolog o statws Hepatitis B pob clinigydd perthnasol.

### Rheoli meddygyniaethau

Canfuom fod systemau ar waith er mwyn rheoli meddyginiaethau'n ddiogel.

Disgrifiwyd trefniadau ar gyfer rhagnodi meddyginiaethau cleifion yn ddiogel a'u hadolygu. O fewn y sampl o gofnodion cleifion y gwnaethom edrych arnynt, gwelsom hefyd fod y rhesymau dros ragnodi meddyginiaeth a rhoi'r gorau i'w defnyddio wedi eu cofnodi. Roedd y practis wedi mabwysiadu llyfr fformiwlâu y bwrdd iechyd lleol a dywedwyd wrthym fod hyn yn cael ei ddiweddarau yn rheolaidd i gymryd i ystyriaeth cyfarwyddyd lleol a chenedlaethol. Roedd gan y practis fynediad at fferyllydd a oedd yn gallu darparu cyngor a chymorth ar faterion rhagnodi meddyginiaeth.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn defnyddio'r Cynllun Cerdyn Melyn<sup>2</sup> i adrodd am bryderon am adweithiau niweidiol i feddyginiaeth. Gwnaeth hyn helpu i fonitro diogelwch y meddyginiaethau a ragnodwyd a sut roeddent yn cael eu defnyddio. Roedd gan y practis system ar waith hefyd ar gyfer adolygu digwyddiadau diogelwch claf sylweddol, ac roedd hon yn cynnwys digwyddiadau cysylltiedig â meddyginiaeth.

Roedd nifer o ffyrdd i gleifion gael presgripsiynau amlroddadwy a disgrifiwyd y rhain yn nhaflen wybodaeth y practis.

### Diogelu plant ac oedolion mewn

Roedd gweithdrefnau ysgrifenedig mewn perthynas â diogelu plant ac oedolion mewn perygl ar gael. Roedd angen i'r rhain, ynghyd â pholisïau ysgrifenedig eraill, gael eu hadolygu i gadarnhau eu bod yn gyfoes (gweler adran 'Arweinyddiaeth a Rheolaeth'). Er bod y manylion cyswllt ar gyfer timau diogelu lleol ar gael, roedd yn ymddangos nad oedd y rhain wedi cael eu diweddarau ers 2011.

Disgrifiwyd a dangoswyd trefniadau ar gyfer cofnodi a diweddarau gwybodaeth berthnasol am amddiffyn plant ar y system cofnodion cleifion electronig. Gwnaeth yr uwch-staff gadarnhau bod meddyg teulu adnabyddedig yn y practis yn gweithredu fel arweinydd o ran amddiffyn plant. Roedd hyn yn golygu bod gan staff gyswllt lleol i adrodd pryderon iddo mewn perthynas â materion diogelu a'u trafod gydag ef. Cadarnhaodd y staff inni siarad â nhw y byddent yn rhoi gwybod i uwch-staff y practis os oedd ganddynt unrhyw bryderon ynghylch lles claf.

Gwelsom fod gwaith amlddisgyblaethol effeithiol yn digwydd ynghylch pryderon diogelu plant ac oedolion.

---

<sup>2</sup> Mae'r Cynllun Cerdyn Melyn yn helpu i fonitro diogelwch pob cynnyrch gofal iechyd yn y DU i sicrhau eu bod yn dderbyniol ddiogel ar gyfer cleifion a'r rhai sy'n eu defnyddio.



Gwnaeth uwch-staff gadarnhau bod staff clinigol a gweinyddol wedi mynychu hyfforddiant diogelu a ddarparwyd gan y bwrdd iechyd lleol. Er hynny, nid oedd pob aelod o staff y siaradwyd ag ef yn gallu cofio mynychu hyfforddiant ar weithdrefnau diogelu oedolion.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis wneud trefniadau i wirio bod manylion cyswllt timau diogelu lleol yn gyfoes a'u bod ar gael i staff perthnasol.

Dylai'r practis wneud trefniadau i wirio bod pob aelod o staff wedi mynychu hyfforddiant diogelu perthnasol ar lefel addas. Lle y nodir nad yw staff wedi mynychu hyfforddiant, dylai trefniadau gael eu gwneud i fynd i'r afael â hyn.

### Gofal effeithiol

#### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd gan y practis system ar waith i adrodd a dysgu o ddigwyddiadau diogelwch cleifion a digwyddiadau arwyddocaol. Disgrifiwyd trefniadau hefyd i sicrhau bod tîm y practis yn cadw'n gyfoes o ran arweiniad ac arferion gorau perthnasol.

Gwnaeth uwch-staff ddisgrifio ac arddangos y system ar gyfer cofnodi digwyddiadau diogelwch cleifion a digwyddiadau arwyddocaol. Roedd hyn yn cynnwys hysbysu trwy system hysbysu electronig ac i'r bwrdd iechyd lleol. Dywedwyd wrthym fod digwyddiadau yn cael eu trafod mewn cyfarfodydd clinigol rheolaidd a bod unrhyw ddysgu sy'n cael ei ganfod yn cael ei rannu ag aelodau perthnasol eraill o dîm y practis. Gwnaeth uwch-staff gadarnhau bod y rhybuddion diogelwch perthnasol yn cael eu cylchredeg i dîm y practis fel bo'n angenrheidiol. Cadarnhawyd gan staff inni siarad â nhw fod y systemau ar waith i rannu gwybodaeth berthnasol.

Gwnaeth uwch-staff ddisgrifio sut roedd presenoldeb staff mewn digwyddiadau hyfforddi a chynadleddau yn darparu ffordd i dîm y practis gadw'n gyfoes gydag arweiniad ac arferion gorau perthnasol.

#### Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Disgrifiwyd ac arddangoswyd systemau ar gyfer y rheolaeth ddiogel o wybodaeth sy'n berthnasol i weithrediad y practis.

#### Cadw Cofnodion

Yn gyffredinol, canfuom safon dda o ran cadw cofnodion. Canfuom fod angen gwelliannau o ran pa mor fanwl oedd rhai cofnodion.

Gwnaethom edrych ar sampl ar hap o gofnodion meddygol cleifion electronig. Roedd cofnodion cleifion yn cael eu cadw'n electronig ac roedd yn hawdd dod o

hyd i'r wybodaeth berthnasol. Roedd yr holl gofnodion a welsom wedi eu cwblhau mewn ffordd amserol. Gwelsom fod y cofnodion i gyd yn gyfoes ac yn cynnwys gwybodaeth allweddol megis enw'r clinigydd a oedd yn gwneud y nodiadau a dyddiad a chanlyniad yr ymgynghoriad.

Er bod rhai o'r nodiadau a wnaethpwyd yn fanwl, roedd eraill yn brin yn hyn o beth. Canfuom anghysondebau ynghylch y lefel o fanylion a gofnodwyd mewn perthynas â hanesion meddygol, canlyniadau archwiliadau a gwybodaeth/cyngor ysgrifenedig a roddwyd. Canfuom hefyd nad oedd y cofnodion yn dangos bob tro a oedd caniatâd y claf am driniaeth wedi ei sicrhau, a oedd claf wedi cael y cynnig o gael gwarchodwr, ac a oedd y cynnig hwn wedi ei dderbyn neu ei wrthod.

Gwelsom fod ymchwiliadau wedi cael eu cofnodi, lle'r oedd y rhain wedi cael eu rhoi ar waith.

Canfuom arfer da mewn perthynas â'r defnydd o godau Read.<sup>3</sup> Lle'r oedd cleifion wedi dioddef o gyflyrau difrifol a hirdymor, canfuom fod cofnodion yn cynnwys crynodebau llawn o'r cyflyrau hyn i gynorthwyo cynllunio gofal yn y dyfodol.

#### Yr hyn mae angen wella

Dylai'r practis wneud trefniadau i sicrhau bod cofnodion meddygol cleifion yn ddigon manwl, gan gymryd i ystyriaeth safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.

---

<sup>3</sup> Mae codau Read yn set o godau clinigol wedi'u cynhyrchu gan gyfrifiadur ac wedi'u dylunio i gael eu defnyddio mewn gofal sylfaenol i gofnodi gofal claf o ddydd i ddydd. Mae'r codau hefyd yn hwyluso gweithgarwch archwilio ac adrodd o fewn gofal sylfaenol.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitor eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Safonai Iechyd a Gofal.*

Roedd strwythur rheoli ar waith gyda llinellau adrodd a dirprwyo clir.

Roedd systemau ar waith er mwyn arwain a rheoli'r practis yn effeithiol. Roedd polisiau ysgrifenedig yn cael eu hadolygu gyda'r nod o wneud gwelliannau.

Canfuom dîm practis a oedd yn canolbwyntio ar y claf ac a oedd yn cadarnhau eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan uwch-staff. Gellid gwella'r broses o gofnodi hyfforddiant staff i'w gwneud yn haws cael mynediad at y wybodaeth hon a'i hadolygu.

## Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Roedd rheolwr practis yn y swydd a oedd, ar adeg yr arolygiad, yn gyfrifol am reoli cyfanswm o bedwar gwasanaeth o fewn yr un grŵp practis. Roedd y cyfrifoldeb am weithredu pob gwasanaeth o ddydd i ddydd wedi ei ddirprwyo i arweinwyr tîm, a oedd yn cael eu cefnogi gan y partneriaid meddygon teulu, rheolwyr practis a thimau staff lleol.

Disgrifiwyd trefniadau ar gyfer cyfarfodydd clinigol, rheoli a thîm rheolaidd. Nod y rhain oedd hwyluso cyfathrebu rhwng tîm y practis a rhannu dysgu perthnasol.

Disgrifiwyd cysylltiadau cadarnhaol gyda'r grŵp clwstwr<sup>4</sup> o feddygon teulu lleol. Dywedwyd wrthym fod arweinydd tîm y practis wedi ei annog i fynyachu cyfarfodydd clwstwr ac roedd rheolwr y practis a meddygon teulu yn eu

---

<sup>4</sup> Mae 'clwstwr' o bractisau meddygon teulu yn grŵp o feddygon teulu a phractisau a bennir yn lleol gan fwrdd iechyd lleol unigol o fewn GIG Cymru. Mae meddygon teulu yn y clystyrau yn chwarae rôl allweddol o ran cefnogi gwaith parhaus Rhwydwaith (iechyd) Ardal er budd cleifion.

mynychu ar sail gylchdro. Roedd hyn yn helpu i hyrwyddo ymglymiad lleol yn y clwstwr ac ar yr un pryd yn caniatáu i uwch-staff gynnal trosolwg o waith y clwstwr ac ymgysylltiad.

Roedd amrediad o bolisïau a gweithdrefnau ysgrifenedig ar gael i arwain staff yn eu swyddi o ddydd i ddydd. Roedd angen i rai o'r rhain gael eu diweddarau a chael manylion lleol wedi eu hychwanegu i'w gwneud yn benodol i'r practis. Cadarnhawyd gan yr uwch-staff bod y polisïau a'r gweithdrefnau yn y broses o gael eu diweddarau.

Roedd gan y practis Gynllun Datblygu Practis cyfoes. Roedd hwn yn nodi nodau ac amcanion, ynghyd â champau gweithredu ac amserlenni ar gyfer eu cwblhau.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis barhau i ddiweddarau polisïau a gweithdrefnau ysgrifenedig i sicrhau eu bod yn gyfoes ac yn berthnasol i drefniadau gweithio lleol o fewn y practis.

## Staff ac adnoddau

### Gweithlu

Dangosodd y staff fod ganddynt y sgiliau a'r wybodaeth gywir i gyflawni eu swyddogaethau o fewn y practis.

Roedd y staff y siaradwyd â hwy yn gallu disgrifio eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau penodol, a oedd yn cyfrannu at weithrediad cyffredinol y practis. Gwnaeth y staff i gyd gadarnhau eu bod yn teimlo eu bod wedi cael eu cefnogi gan reolwr y practis ac uwch-staff eraill. Dywedodd staff wrthym hefyd fod cyfleoedd iddynt fynychu hyfforddiant i'w cefnogi yn eu swyddogaethau. Roedd systemau electronig ac ar ffurf papur wedi eu defnyddio i gofnodi hyfforddiant staff. Cadarnhawyd gan yr uwch-staff nad oedd yr hyfforddiant a ddarparwyd gan y bwrdd iechyd lleol yn cael ei gofnodi bob tro yn y practis. Gwnaeth hyn yn anodd i'r tîm arolygu ganfod pa hyfforddiant roedd y staff wedi ei fynychu a lle'r oedd angen i'r staff ddiweddarau eu hyfforddiant. Gwnaeth yr uwch-staff gytuno i ddatblygu matrices hyfforddiant i ddangos, trwy edrych, gwybodaeth am hyfforddiant staff.

Roedd y staff y siaradwyd â hwy wedi cadarnhau eu bod wedi derbyn gwerthusiadau blynyddol o'u gwaith a gwelsom ddogfennau yn arddangos y broses hon.

Roedd trafodaethau â'r staff a'r uwch-staff yn cadarnhau bod llawer o'r staff wedi gweithio yn y practis ers amser hir. Cadarnhaodd yr uwch-staff **fod ffeiliau staff yn cael eu cadw'n ganolog mewn lleoliad arall o fewn y grŵp**

practis. Er inni weld enghraifft o wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer un aelod o staff, nid oedd dogfennaeth i gefnogi bod gwiriadau cyn cyflogaeth eraill yn cael eu cynnal ar gael yn rhwydd ar adeg yr arolygiad.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis ddatblygu system fel y gellir cael mynediad at wybodaeth hyfforddiant a'i hadolygu'n hawdd. Lle y nodir nad yw'r staff wedi mynychu hyfforddiant, dylai trefniadau gael eu gwneud i fynd i'r afael â hyn.

Dylai dogfennau mewn perthynas â recriwtio staff fod ar gael i AGIC eu harchwilio ar gais.

## 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau, maent wedi'u nodi yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bo'n berthnasol):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynglŷn â diogelwch cleifion lle rydym yn nodi bod angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn ein hysbysu o'r camau gweithredu brys maent yn eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn nodi bod angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn ein hysbysu o'r camau y maent yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i sicrhau AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw digonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws adrannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

## 5. Sut rydym yn arolygu practisau meddygon teulu

Mae arolygiadau o bractisau meddygon teulu fel arfer yn rhai lle rhoddir rhybudd. Mae practisau meddygon teulu yn derbyn hyd at 12 wythnos o rybudd cyn arolygiad. Mae hyn fel y bydd trefniadau yn gallu cael eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer, a bod yr arolygiad yn peri cyn lleied o amhariad â phosibl i gleifion.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr practisau ar ddiwedd yr arolygiad, a hynny mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Rydym yn gwirio sut mae practisau meddygon teulu yn bodloni [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#). Rydym yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill lle bo'n berthnasol.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg o'r safonau gofal o fewn practisau meddygon teulu.

Ceir mwy o fanylion am sut y mae AGIC yn arolygu [practisau meddygon teulu](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a uwchgyfeiriwyd yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Gwnaethom nodi bod dyddiad dod i ben rhai tiwbiau llwybr anadlu i'w defnyddio mewn argyfwng wedi mynd heibio, neu nad oedd y tiwbiau mewn pecynnau wedi'u selio.	Roedd hyn yn golygu na ellid rhoi sicrwydd inni fod y cyfarpar yn addas i'w ddefnyddio.  (Safon 2.1 – Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch)	Gwnaethom hysbysu staff uwch am ein canfyddiadau ar adeg yr arolygiad.	Gwnaeth staff uwch gynnal gwiriad o'r feddyginiaeth a'r cyfarpar i gadarnhau eu bod yn addas i'w defnyddio, ac roeddent yn gwneud trefniadau i gael offer llwybr anadlu newydd cyn diwedd yr arolygiad.



## Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

**Gwasanaeth:** Practis Meddygol Rosedale

**Dyddiad yr arolygiad:** 16 Mai 2017

Mae'r tabl isod yn nodi unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith gan ddweud wrthym am y camau brys mae'n eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Nid oes angen cynllun gwella ar unwaith.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (llythrennau bras):**

**Swydd:**

**Dyddiad:**

## Atodiad C – Cynllun gwella

**Gwasanaeth:** Practis Meddygol Rosedale

**Dyddiad yr arolygiad:** 16 Mai 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y maen nhw'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Ansawdd profiad y claf</b>				
Dylai'r practis arddangos rhagor o wybodaeth ynglŷn â'r cymorth a'r gefnogaeth sydd ar gael yn benodol ar gyfer gofalmwyr.	1.1 Hyrwyddo, diogelu a gwella iechyd	Gofynnir am wybodaeth gan y sefydliadau perthnasol i'w harddangos yn y dderbynfa.	Jan Tobin (ARWEINYDD TÎM)	Yn parhau
Dylai'r practis arddangos gwybodaeth glir ar gyfer cleifion yn eu hysbysu am eu hawl i ofyn i hebryngwr fod yn bresennol.	4.1 Gofal ag urddas	Bydd gwybodaeth yn cael ei hargraffu'n glir a'i harddangos yn y dderbynfa.	Jan Tobin	Ar unwaith
Dylai'r practis wneud trefniadau i sicrhau bod y wybodaeth sydd ar gael ar-lein yn gyson ac yn gyfredol.	4.2 Gwybodaeth i gleifion	Gwirio gwybodaeth yn rheolaidd gyda phartneriaid a sefydliadau.	Roisin Jones	Yn parhau
<b>Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol</b>				
Rhaid i'r practis wneud trefniadau i sicrhau bod	2.1 Rheoli risg a	Cwblheir gwiriadau/rhestrau gwirio sy'n	Nyrs y Practis –	Yn parhau/ar

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>meddyginiaeth a chyfarpar addas ar gael i'w defnyddio pe byddai argyfwng claf (llewygu/cwmpo).</p> <p>Rhaid rhoi system ar waith i wirio'r rhain yn rheolaidd gyda'r nod o wneud yn siŵr eu bod yn ddiogel i'w defnyddio.</p>	hyrwyddo iechyd a diogelwch	cael eu monitro bob wythnos.	Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd	unwaith
Dylai'r practis wneud trefniadau i gynnal cofnod canolog o statws Hepatitis B yr holl glinigwyr perthnasol.	2.4 Atal a rheoli heintiau a dadheintio	Creu system gadarn ar gyfer monitro statws Hepatitis B staff.	Roisin Jones	Ar unwaith/yn parhau
<p>Dylai'r practis wneud trefniadau i wirio bod manylion cyswllt y timau diogelu lleol yn gyfredol a gwneud y rhain ar gael i'r staff perthnasol.</p> <p>Dylai'r practis wneud trefniadau i wirio bod yr holl staff wedi mynychu hyfforddiant diogelu perthnasol ar lefel briodol. Lle nodir nad yw staff wedi mynychu hyfforddiant, dylid gwneud trefniadau i roi sylw i'r mater hwn.</p>	2.7 Diogelu plant a diogelu oedolion mewn perygl	Trefnu hyfforddiant ffurfiol mewnol ar gyfer staff – trwy <a href="http://highspeedtraining.co.uk">highspeedtraining.co.uk</a> – a fydd yn cael ei gynnal ar 12 Medi yn ystod PT4L gyda hyfforddiant diweddarau'n cael ei gynnal yn y dyfodol.	Roisin Jones	6 mis – wedyn yn parhau
Dylai'r practis wneud trefniadau i sicrhau bod cofnodion meddygol cleifion yn ddigon manwl, gan ystyried y safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.	3.5 Cadw cofnodion	Bydd y meddygon yn trafod yr hyn a ddisgwylir a'r broses o godi nodiadau priodol mewn cyfarfod clinigol.	Dr Huw Perry	06/07/2017

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Dylai'r practis fynd ati i ddiweddarau polisïau a gweithdrefnau ysgrifenedig i sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn berthnasol i drefniadau gweithio lleol o fewn y practis.</p>	<p>Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd</p>	<p>Sicrhau bod yr holl bolisïau'n gyfredol ac yn briodol.</p>	<p>Roisin Jones</p>	<p>17 Gorffennaf ac yn parhau</p>
<p>Dylai'r practis ddatblygu system er mwyn cael mynediad at wybodaeth am hyfforddiant a'i hadolygu'n hawdd. Lle nodir nad yw staff wedi mynychu hyfforddiant, dylid gwneud trefniadau i roi sylw i'r mater hwn.</p> <p>Dylai dogfennau mewn perthynas â recriwtio staff fod yn hawdd i AGIC gael mynediad atynt ar gais.</p>	<p>7.1 Gweithlu</p>	<p>Gwneud copïau ar gyfer pob safle, yn ddigidol ac ar bapur, mewn ffolderi sy'n benodol i gyflogeion unigol – gan gynnwys hyfforddiant a ddarperir gan y bwrdd iechyd lleol. Yn ogystal, rydym yn gwneud yn siŵr ein bod yn rhaedru'r holl wybodaeth a geir ar lefel uwch i'r rhai yn y gweithle.</p> <p>Mae hyfforddiant ar gyfer y pum dyddiad PT4L nesaf wedi cael ei gadarnhau, gan gynnwys diogelu, bod yn hebryngwr ac ati. Rydym yn credu ein bod wedi uwchsgilio ein gweithwyr cymorth gofal iechyd i raddau nad yw practisau eraill, yn ôl pob tebyg, wedi'u hystyried hyd yn oed. Rydym yn annog fferyllwyr rydym yn eu cyflogi yn weithredol i gwblhau eu hyfforddiant rhagnodi annibynnol ac mae'r meddygon yn mentora ac yn cefnogi'r unigolion hyn. Ynglŷn â hyfforddiant, rydym yn mynd mor bell ag</p>	<p>Roisin Jones</p>	<p>Cwblhawyd</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		annog myfyrwyr o Brifysgol Abertawe a meddygon cysylltiol o Brifysgol Caerwrangon i hyfforddi yma yn y practis. Ein cred ni yw mai hyfforddiant da yw sail gweithlu sy'n darparu gofal iechyd o'r safon uchaf posibl y gallwn ei ddarparu.		

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

### Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (llythrennau bras):**      **Roisin Jones**  
**Swydd:**                              **Rheolwr Grŵp**  
**Dyddiad:**                              **1/07/2017**